# Prif Swyddog Meddygol Cymru

## Diweddariad 94: Rhagfyr 2018



Croeso i Ddiweddariad y Prif Swyddog Meddygol. Fy nod i yn y diweddariad hwn fydd rhoi crynodeb i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru o newyddion cyfoes, canllawiau a datblygiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i ansawdd y gwasanaeth iechyd a gwella iechyd y boblogaeth. Gobeithio y byddant o ddefnydd i chi. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnwys neu awgrymiadau ynglŷn ag erthyglau/pynciau mae croeso i chi anfon e-bost ataf: **DS.ChiefMedicalOfficer@llyw.cymru**

Diolch i chi am eich gwaith cyson yn cefnogi iechyd a llesiant pawb yng Nghymru.


**Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol Cymru**

## Yn y rhifyn hwn:


| | |
|---|---|
| Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Parodrwydd ar draws y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru | 02 |
| Cronfa Iach ac Egnïol – diweddariad | 05 |
| Rhwydwaith Lymffoedema Cymru | 06 |
| Ymgynghori – Gosod isafswm pris alcohol | 07 |
| Diweddariad Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) | 09 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33282

# 1. Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Parodrwydd ar draws y **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yng Nghymru




Mae'r DU wedi cyrraedd pwynt allweddol wrth adael yr UE a bydd yr hyn sy'n digwydd yn y misoedd nesaf yn penderfynu ar ffyniant Cymru yn y dyfodol a chynaliadwyedd ei gwasanaethau cyhoeddus. Roeddwn am gymryd y cyfle hwn i rannu ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'r camau rydym yn eu rhoi ar waith i gynnal y gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarparwn i bobl Cymru yn yr amseroedd ansicr hyn.

Wrth i ni symud ymlaen i gam mwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â pharodrwydd gweithredol a chynllunio wrth gefn, gan gynnwys Brexit 'dim bargen', bydd yn hanfodol sicrhau bod dull cydlynol gyda phontio'r UE trwy gynllun cydlynol cenedlaethol. Rydym wedi sefydlu tri grŵp lefel uchel i helpu arwain a llywio ein parodrwydd ar y cyd ar gyfer tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd:

- Grŵp arweinyddiaeth Pontio'r UE sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau parodrwydd gweithredol yn eu lle ar gyfer gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Nghymru.
- Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid Brexit sy'n cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'r sector, ac a arweinir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol; a
- Grŵp iechyd cyhoeddus y 4 Cenedl sy'n mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd a phryderon diogelwch iechyd, a chydweithgor Llywodraeth Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ystyried materion penodol yng Nghymru.

## Cadwyni Cyflenwi – Meddyginiaethau, Dyfeisiau a Chyfarpar

Un o'n prif flaenoriaethau yw cael cyflenwad cyson a di-dor o feddyginiaethau, dyfeisiau a chyarpar achub bywyd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru, o'r eiliad rydym yn gadael yr UE.

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a chytuno ar eu cynlluniau i sicrhau cyflenwad digonol a di-dor o feddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn y DU os bydd Brexit 'dim bargen'.

Gofynnwyd i gyflenwyr meddyginiaethau sicrhau eu bod yn dal gwerth chwe wythnos o stoc ychwanegol yn y DU wrth ymadael â'r UE. Bydd Llywodraeth y DU yn talu costau llawn y cynllun ac ni ddylai GIG Cymru orfod talu unrhyw gostau ychwanegol. Rydym eisoes wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr ar draws GIG Cymru fis Awst yn nodi manylion y cynlluniau wrth gefn hyn ac yn cynghori nad oes angen i ysbytai, meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru gymryd unrhyw gamau i gael stôr o feddyginiaethau ychwanegol y tu hwnt i'w lefelau stoc busnes fel arfer. Nid oes angen i glinigwyr gael cyflenwadau ychwanegol ar bresgripsiwn neu i gleifion gael stôr o feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn y cartref chwaith.

Bydd angen darparu ar gyfer pob eitem arall (dyfeisiau, nwyddau traul, cyfarpar ac ati) fel stoc gynyddol o fewn seilwaith cyflenwadau'r GIG presennol. Mae Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru yn gweithio gyda chymheiriaid y DU i asesu a modelu effaith cynyddu'r stociau. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach ar hyn wrth i'r angen godi. Er na fydd hyn heb ei heriau, mae gennym strwythur cyflenwi proffesiynol iawn yng Nghymru sydd eisoes yn rheoli bron i £0.5 biliwn o nwyddau a gwasanaethau'r flwyddyn ac yn dal dros 33 miliwn o eitemau.

## Gweithlu

Mae staff yr UE nad ydynt yn hanu o'r DU, a staff rhyngwladol eraill, yn parhau i fod yn bwysig iawn ac yn aelodau gwerthfawr o'n gweithlu.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn nodi bod dros 1,400 o wladolion yr UE yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru gyda thua 7% o feddygon yn dod o'r UE (22% o wledydd eraill y tu allan i'r UE). Mae hyn yn cynrychioli nifer sylweddol o staff hyfforddedig, cymwysedig ac ymroddedig na ellid eu disodli yn y tymor byr. Rydym yn gweithio gyda Chydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr y GIG i ddadansoddi'r ffigur hwn ymhellach gan rolau allweddol.

Rydym yn gwneud llawer o ymdrech i dynnu sylw at Gymru fel lle ardderchog i hyfforddi, gweithio a byw ynddi. Gallai hyn fod yn gam at esbonio pam nad ydym wedi gweld y gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael y sector, fel rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon.

## Statws preswylydd sefydlog

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio tuag at roi'r opsiwn i staff yr UE, sy'n gweithio ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, o fod yn rhan o 'gyflwyniad cynnar' Cynllun Statws Preswylydd Sefydlog y Swyddfa Gartref, o Dachwedd eleni. Drwy gymryd rhan yn y broses o dreialu'r system gofrestru, gall y staff hynny fod ymhlith y cyntaf i gael statws preswylydd sefydlog cyn i'r DU adael yr UE 30 Mawrth 2019. Rydym wedi'i gwneud yn glir i Lywodraeth y DU, fodd bynnag, ein bod yn ei chael yn annerbyniol bod y cynllun peilot yn agored i'r unigolion yn unig, ac nid i'w teuluoedd. P'un a yw'r rhai sy'n gymwys i ymgeisio o dan y cynllun hwn yn dewis gwneud hynny, neu'n dewis aros tan y cyflwyniad llawn o fis Ebrill y flwyddyn nesaf pan ddylent allu gwneud hynny ynghyd â'u teuluoedd, a chyda amddiffyniad proses apelio lawn, gobeithiwn y byddant yn dewis aros yma gan wybod am ein gwerthfawrogiad dwfn o'r cyfraniad a wnânt at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Cydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol (MRPQ)

Mae'r Gydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol (MRPQ) yn bwysig iawn i alluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal i symud yn rhwydd ac yn hawdd yn Ewrop. Yn y DU, mae'r trefniadau MRPQ yn cyflymu'r broses gofrestru yn sylweddol ac yn caniatáu bod staff yn cael eu symud yn ddi-dor rhwng gwledydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r DHSC yn Lloegr a chydweithwyr yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu diwallu yn y dyfodol ac nid ydym yn rhagweld problemau mawr yn y maes hwn yn y tymor byr. Bydd parhad tymor hir yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE27.

## Trefniadau gofal iechyd cyfatebol

Rydym yn disgwyl y bydd gwladolion yr UE sy'n byw yng ngwledydd y DU ar hyn o bryd a gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE ar hyn o bryd, yn gallu parhau i fyw dramor a bydd ganddynt yr un mynediad at ofal iechyd yn ystod y cyfnod pontio, ag sydd ganddynt nawr. Dyma beth a gytunwyd yng ngham 1 o drafodaethau'r DU-UE.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r dyfodol yn destun trafodaethau pellach. Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU ar drefniadau'r dyfodol i ddilyn y broses o dynnu'n ôl, a byddwn yn sicrhau bod strategaethau cyfathrebu priodol yn cael eu rhoi ar waith i lywio cymunedau, unigolion a darparwyr sydd wedi eu heffeithio ledled Cymru.

## Diogelwch Iechyd ac iechyd y cyhoedd

Nid yw bygythiadau iechyd yn parchu ffiniau cenedlaethol. Mae cysylltiadau agos parhaus â systemau diogelu iechyd rhyngwladol ac Ewropeaidd yn hollbwysig i ddiogelwch a lles pobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio'n agos â chydweithwyr ar draws y DU i sicrhau bod systemau yn eu lle i barhau â'r diogelwch hwn.

## Ymchwil ac Arloesi

Bydd mynediad parhaus i gydweithio Ewropeaidd a rhyngwladol ar ymchwil ac arloesi'n hanfodol, yn ogystal â'i hyrwyddo. Mae sefydliadau yng Nghymru yn cael eu hannog i barhau i gael mynediad at gyfleoedd sy'n agored i ni o dan y cynlluniau presennol, fel Gorwel 2020.

Mae'r cynlluniau hyn yn bwysig i'r GIG a'r byd academaidd yng Nghymru, ond hefyd yn helpu i hybu ein sector gwyddorau bywyd allweddol a thwf economaidd cysylltiedig. Mae prosiectau â thema iechyd yng Nghymru wedi denu dros £15m gan Gorwel 2020.

## Cydberthnasau rhyngwladol

Mae gennym enw da a chynyddol rhyngwladol, yn enwedig mewn perthynas â'n gwaith Cenedlaethau yn y Dyfodol, Gofal Iechyd Darbodus a dull yn Seiliedig ar Werth. Cafodd ICC ei gydnabod yn ddiweddar fel Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd newydd dros Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant – yr un gyntaf yn y byd.

Mae angen i ni gynnal ac ymestyn ein cydberthnasau a'n cydweithrediadau rhyngwladol beth bynnag yw canlyniad Brexit. Mae'n bwysig cofio ein bod yn gadael yr UE, ac nid yn gadael Ewrop.

### Mesurau paratoi eraill

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau ar waith i reoli goblygiadau posibl eraill Brexit i'r GIG, gan gynnwys rheolau mewnfudo yn y dyfodol; parhad cyllid ymchwil a chydweithrediadau clinigol ac ymchwil traws-Ewropeaidd; a threfniadau gofal iechyd cyfatebol yn y dyfodol.

Mae Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru wedi gofyn i'n byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod eu cynlluniau parhad busnes yn cymryd ystyriaeth lawn, briodol a chymesur o effaith gadael yr UE, gan gynnwys ymadawiad 'dim bargen' o'r UE. Yn yr un modd, gofynnodd Cyfarwyddwr yr Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ystyried yn benodol oblygiadau Brexit dim bargen posib, yn eu cynlluniau wrth gefn.

## Y Gronfa Iach ac Egnïol – adiweddariad

Yn fy niweddariad CMO diwethaf, roeddwn wrth fy modd yn cael cyhoeddi lansiad o'n Cronfa Iach ac Egnïol. Nod y Gronfa, a gyflwynir trwy bartneriaeth strategol â Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw gwella iechyd meddwl a chorfforol trwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw, gyda ffocws cryf ar ddulliau a arweinir gan y gymuned.

Mae'r Gronfa bellach yn agored i Ddatganiadau o Ddiddordeb, ac mae gwybodaeth bellach ac arweiniad ynghylch a fyddwch chi a'ch prosiect yn gymwys, a'r broses ymgeisio, ar dudalen we Iach ac Egnïol Chwaraeon Cymru. **www.sport.wales/funding--support/our-grants/healthy-and-active-fund.aspx**

# Rhwydwaith **Lymffoedema** Cymru


Nod Rhwydwaith Lymffoedema Cymru (LNW) yw hyrwyddo gwasanaethau lymffoedema sy'n seiliedig ar werth cyfartal, i bawb sydd â lymffoedema ac edema cronig ledled Cymru. Mae LNW wedi datblygu modiwl e-ddysgu sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o lymffoedema ac edema cronig, hyrwyddo dulliau adnabod cynnar ac atgyfeirio'n brydlon. Anogir gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i gwblhau'r modiwl e-ddysgu hwn, y gellir cael mynediad ato trwy gofnodion staff electronig neu drwy **Dysgu@Cymru**. (**https://learning.wales.nhs.uk/login/index.php?lang=cy**)

Mae gan LNW hefyd 16 o ffilmiau fideo a grëwyd ar y cyd â Pocket Medic a phobl â lymffoedema neu edema cronig. Os hoffech ragor o wybodaeth am y rhain, cysylltwch ag LNW yn: **Lymphoedema.network.wales@wales.nhs.uk**

GIG Cymru NHS Wales | Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru | NHS Wales Health Collaborative

**Lymphoedema Services Within NHS Wales**

Lymphoedema Network Wales




**Aneurin Bevan University Health Board**
Lymphoedema Clinic
Springfield Day Unit
St Woolos Hospital
131 Stow Hill
Newport
NP20 4SZ
01633 238464

**Abertawe Bro Morgannwg University Health Board**
Lymphoedema Clinic
Singleton Hospital
Swansea
SA2 8QA
01792 285252

**Betsi Cadwaladr University Health Board**
Lymphoedema Clinic
Dept 20 Wrexham Maelor Hospital
Croesnewydd Road
Wrexham
LL13 7TD
01978 726257

**Cardiff and Vale University Health Board**
Lymphoedema Clinic
Whitchurch Hospital
Park Road
Whitchurch
CF14 7XB
02920 336176

**Cwm Taf University Health Board**
Lymphoedema Clinic
Dewi Sant Hospital
Albert Road
Pontypridd
CF37 1LB
01443 443499

**Hywel Dda Health Board**
Lymphoedema Clinic
Withybush General Hospital
Fishguard Road
Haverfordwest
SA61 2PZ
01437 773053

**Powys Teaching Health Board**
Lymphoedema Clinic
Bracken Trust
Cefnllys Lane
Llandridnod Wells
LD1 5LJ
01597 825152

Lymphoedema Network Wales, Cimla Health & Social Care Centre, Cimla, Neath SA11 3SU
Lymphoedema.network.wales@wales.nhs.uk Tel: 01639 862767 Fax: 01639 862802

# Ymgynghori – Gosod isafswm pris alcohol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 wedi'i hanelu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel. Mae'n darparu fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned. Mae hyn yn ein galluogi i dargedu gwerthiant a chyflenwad alcohol rhad a chryf.

Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu mewn rheoliadau. Cyn gosod y rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym heddiw'n lansio ymgynghoriad ynghylch lefel yr isafbris uned a ffefrir.

Gan ystyried ystod o ffactorau, credwn fod isafbris uned o 50c yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â goryfed alcohol.


Ystyriwn y bydd isafbris uned o 50c yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng y manteision iechyd cyhoeddus a chymdeithasol a ragwelir a'r ymyrraeth yn y farchnad.


Nid ymgynghoriad am yr egwyddor o osod isafbris uned yw hwn. Rydym wedi ymgynghori ddwywaith ar yr egwyddor o gyflwyno isafbris uned am alcohol yng Nghymru – yn 2014 fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd ac yn 2015 ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru).

Ymgynghoriad yw hwn ar yr isafbris uned a ffefrir, a bydd ar agor am 12 wythnos. Yna, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau, bydd rheoliadau drafft yn pennu'r isafbris uned at ddibenion y Ddeddf yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys y rheoliadau drafft sy'n pennu lefel yr isafbris uned a ffefrir, ynghyd â Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac maent ar gael yma: **www.beta.llyw.cymru/gosod-yr-isafbris-am-alcohol**

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch a ni ar **DeddfIaA.MUPAct@gov.wales**




| | Gwirodydd | Gwin | Lager/Seidr/Cwrw | | Siot ddwbl o wirodydd | Siot sengl o wirodydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifiad isafbris uned 50c | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| X Cryfder | 40.0% | 12.5% | 5.2% 3.6% | 5.2% | 40% | 40% |
| X Cyfaint | 1 Litr | 0.75L | 0.568L | 0.44L | 0.05L | 0.025L |
| = Isafbris | £20.00 | £4.69 | £1.48 £1.02 | £1.14 | £1 | 50c |

# 5. Diweddariad Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

## Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2017-2018 – Dadansoddi Data Rhagnodi hyd at fis Mawrth 2018

**www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National%20Prescribing%20Indicators%202017-2018%20Analysis%20of%20Prescribing%20Data%20to%20March%202018.pdf**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd y mae'r byrddau iechyd wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2017-2018 ynghylch gofal sylfaenol ac eilaidd, ar gyfer y chwarter blwyddyn a ddaw i ben ym mis Mawrth 2018. Roedd naw allan o un ar ddeg Dangosydd Rhagnodi Cenedlaethol gofal sylfaenol â throthwy yn dangos gwelliant yn unol â nod y dangosydd. Ceir tri Dangosydd Rhagnodi Cenedlaethol ar gyfer gofal eilaidd hefyd, yn canolbwyntio ar dri maes rhagnodi. Yn achos meddyginiaethau biodebyg, roedd gwelliant cyffredinol yn unol â nod y dangosydd. Cafwyd cynnydd yn lefel y cydweddau inswlin cyfnod hir mewn gofal eilaidd ond gostyngodd eu defnydd mewn gofal sylfaenol, yn unol â nod y dangosydd. Cynyddodd canran y cleifion sy'n derbyn proffylacsis gwrthfiotig llawfeddygol y colon a'r rhefr am fwy na 24 awr, yn groes i nod y dangosydd. Cyflwynwyd y ddogfen i AWMSG er gwybodaeth ym mis Medi 2018.

## Canllaw Trin Haint Llwybr Wrinol Empirig Gofal Sylfaenol

**www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/Primary%20Care%20Empirical%20UTI%20Treatment%20Guidelines.pdf**

Mae'r canllaw hwn, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Grŵp Canllawiau Gwrthficrobaidd Cymru Gyfan, yn seiliedig ar ganllaw gwrthficrobaidd Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn cyflwyno cyngor cyfredol ar ofal sylfaenol triniaeth gwrthficrobaidd empirig cleifion yng Nghymru sydd gyda haint llwybr wrinol. Dylai'r canllawiau hyn gyfrannu at gyfyngu ar yr achosion o wrthwynebiad gwrthficrobaidd, triniaeth sy'n methu, ac felly symud ymlaen i wrosepsis. Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan AWMSG ym mis Gorffennaf 2018.

## Cyngor AWMSG

Yn ddiweddar, mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi darparu cyngor ar nifer o feddyginiaethau, a chafodd y cyngor ei gadarnhau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Os yw AWMSG yn argymell meddyginiaeth a'i bod yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, rhaid i gyllid fod ar gael gan fyrddau iechyd o fewn dau fis ar ôl yr hysbysiad cadarnhau. Os na chaiff meddyginiaeth ei hargymell, ni ddylid ei rhagnodi fel mater o drefn yn GIG Cymru ar gyfer y dynodiad a nodir. Mae'r argymhellion canlynol gan AWMSG ar gael yn llawn ar eu gwefan: **www.awmsg.org**.

| Cyfeirnod AWTTC | Meddyginiaeth | Dynodiad |
|---|---|---|
| **Meddyginiaethau a argymhellir** | | |
| 1343 | **ciprofloxacin (Cetraxal) 2 mg/ml – diferion clust** | Triniaeth ar gyfer llid y glust allanol acíwt mewn oedolion a phlant sy'n hŷn na blwydd oed, gyda philen tympanig gyfan, a achosir gan ficro-organebau a allai gael ciprofloxacin<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1343** |
| 1988 | **lanreotide (Somatuline Autogel) 120 mg – toddiant i'w roi fel pigiad** | Trin tiwmorau gradd 1 ac is-set o diwmorau niwroendocrin gastroenteropancreatig (GEP-NET) gradd 2 (mynegai Ki67 hyd at 10%) o darddiad canol perfeddyn, pancreatig neu anhysbys, lle mae safleoedd o darddiad ôl-berfeddyn wedi'u heithrio, mewn cleifion sy'n oedolion gyda chlefyd metastatig neu'n ddatblygedig lleol ac nad oes modd ei dynnu allan<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1988** |
| 3582 | **levonorgestrel (Kyleena) 19.5 mg – system gyflwyno yn y groth** | Dull atal cenhedlu am hyd at 5 mlynedd<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3582** |

| Cyfeirnod AWTTC | Meddyginiaeth | Dynodiad |
|---|---|---|
| 3732 | **octreotide (Sandostatin LAR) 10 mg, 20 mg a 30 mg - powdwr a thoddydd ar gyfer toddiant i'w roi fel pigiad** | Trin cleifion gyda thiwmorau niwroendocrin datblygedig yng nghanol perfeddyn, neu o darddiad cynradd anhysbys, lle mae safleoedd o darddiad nad ydynt yng nghanol perfeddyn wedi'u heithrio<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3732** |
| **Argymhellir gyda chyfyngiadau** | | |
| 2001 | **dalbavancin (Xydalba) 500 mg – powdwr ar gyfer crynodiad i fod yn doddiad i'w roi fel trwyth** | Trin heintiau croen a strwythur croen bacterol aciwt (ABSSSI) mewn oedolion<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2001** |
| 2037 | **telotristat ethyl (Xermelo) 250 mg – tabled wedi'i gorchuddio â ffilm** | Trin dolur rhydd syndrom cancr gwyllt mewn cyfuniad â therapi analog somatostatin (SSA) mewn oedolion, nad ydyw'n cael ei reoli'n ddigonol gan therapi SSA<br>**www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2037** |

Gan na chafwyd gwybodaeth gan y sawl sydd â'r awdurdod marchnata, ni ellir cymeradwyo'r meddyginiaethau canlynol i'w defnyddio yn GIG Cymru.

| Cyfeirnod AWTTC | Datganiadau Cynghori | Cwmni |
|---|---|---|
| 3734 | anakinra (Kineret) 100 mg/0.67 ml – toddiant i'w roi fel pigiadn<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3734 | Swedish Orphan Biovitrum Ltd |
| 2507 | bosutinib (Bosulif) 100 mg and 500 mg – tabled<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2507 | Pfizer Ltd |
| 1351 | denosumab (Xgeva) 120 mg - toddiant i'w roi fel pigiad<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1351 | Amgen Ltd |
| 3492 | ertugliflozin/metformin (Segluromet) 2.5 mg/850 mg, 2.5 mg/1,000 mg, 7.5 mg/850 mg a 7.5 mg/1,000 mg – tabled wedi'i gorchuddio â ffilm<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3492 | Merck Sharp & Dohme Ltd |
| 1104 | ertugliflozin/sitagliptin (Steglujan) 5 mg/100 mg a 15 mg/100 mg – tabled wedi'i gorchuddio â ffilm<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1104 | Merck Sharp & Dohme Ltd |
| 3710 | ferric maltol (Feraccru) 30 mg - capsiwl<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3710 | Shield Therapeutics |

| Cyfeirnod AWTTC | Datganiadau Cynghori | Cwmni |
|---|---|---|
| 3861 | ganciclovir sodium (Cymevene) 500 mg - powdwr ar gyfer crynodiad i fod yn doddiad i'w roi fel trwyth<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3861 | Roche Products Ltd |
| 3711 | human normal immunoglobulin (SCIg) (Hizentra) 200 mg/ml – toddiant i'w roi fel pigiad<br>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3711 | CSL Behring UK Ltd |

Cynhelir cyfarfod nesaf AWMSG ar 12 Rhagfyr 2018. Bydd holl ddogfennau'r cyfarfod ar gael ar wefan AWMSG cyn y cyfarfod.
**www.awmsg.org/meetings_awmsg_2018.html**

**Manylion cyswllt**
**Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: **03000 257028**
E-bost: **pschiefmedicalofficer@gov.wales**

Dilynwch fi ar Twitter
**@CMOWales**